# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu ei weithgareddau dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe.

| **Cynghorydd:** | Christine Richards | Adran Etholiadol: | Llwchwr Isaf |
|---|---|---|---|

| **Portffolio Cabinet/Gweithrediaeth** | **Dirprwy Arweinydd ac Aelod y Cabinet dros Ddinasyddiaeth, Cynnwys y Gymuned a Democratiaeth** |
|---|---|

## Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth

Rwyf hefyd yn gynghorydd tref a fi oedd Maer Cyngor Tref Llwchwr yn 2013-2014. Cyfunais y dyletswyddau hyn a pharheais i gynnal cymorthfeydd rheolaidd yn Ysgol Gynradd Casllwchwr ynghyd â chydweithwyr y cyngor tref gyda rhaglen ychwanegol o gymorthfeydd stryd trwy gydol yr haf. Hefyd, euthum i lawer o ddigwyddiadau lleol fel maer.

Trwy gydol y flwyddyn, sicrheais ei bod yn hawdd i breswylwyr lleol gysylltu â fi ac ymdriniais â llawer o faterion lleol ac achosion personol i bobl Llwchwr Isaf.

Parheais i fonitro ceisiadau cynllunio ar gyfer Llwchwr Isaf a cheisio fy ngorau glas i sicrhau bod preswylwyr lleol yn dweud eu dweud. Cyhoeddais gylchlythyrau [Llais Llwchwr Isaf] i roi gwybod i breswylwyr lleol am fy ngweithgareddau, fy mhryderon a mentrau lleol.

Parheais i fod yn llywodraethwr gweithgar yn Ysgol Gynradd Casllwchwr ac Ysgol Gyfun Penyrheol.

## Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu trwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Pwyllgor Apeliadau a Dyfarniadau | 3 | / | 4 | 75 | % |
| Pwyllgor Penodiadau | 24 | / | 25 | 96 | % |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 7 | / | 12 | 58 | % |
| Y Cabinet | 16 | / | 18 | 89 | % |
| Pwyllgor Arfarnu a Thaliadau Cydnabyddiaeth y Prif Weithredwr | 2 | / | 2 | 100 | % |
| Fforwm Cynghorau Cymuned/Tref | 2 | / | 3 | 67 | % |
| Gweithgor y Cyfansoddiad | 1 | / | 1 | 100 | % |
| Y cyngor | 13 | / | 15 | 87 | % |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 6 | / | 8 | 75 | % |
| Cydbwyllgor Ymgynghorol | 6 | / | 7 | 86 | % |
| Fforwm Cyswllt Myfyrwyr | 0 | / | 3 | 0 | % |
| Panel yr Ymddiriedolwyr | 4 | / | 5 | 80 | % |
| CYFFREDINOL | 84 | / | 103 | 82 | % |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Dirprwy Arweinydd gyda phortffolio Cynnwys Dinasyddion a'r Gymuned, Democratiaeth a Chyfranogiad Pobl Ifanc.

Datblygu Strategaethau Cynnwys Dinasyddion, Ymgynghori a Hyrwyddo Gweithredu Agored a Thryloywder; Datblygu partneriaethau lleol ar gyfer gwella gwasanaethau, gan gynnwys y Bwrdd Gwasanaethau Lleol; Arweinyddiaeth Gymunedol; Gwasanaethau Democrataidd; Cyfranogiad – Plant a Phobl Ifanc; Deisebau; Cydweithrediad a Datblygiad Staff. Rhoi cyflog ac amodau a thelerau cyfartal ar waith i staff y cyngor.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Fel rhan o gyllideb ddiwethaf y cyngor, dechreuais a chefnogais ymgynghoriad â phobl ifanc dros flaenoriaethau'r cyngor.

Cefnogais roi cyfradd Cyflog Byw ar waith i weithwyr y cyngor.

Yn lleol, parheais i fod yn weithgar fel Cadeirydd Cyfeillion Parc Williams sy'n gweithio mewn partneriaeth â Dinas a Sir Abertawe i wella'n parc lleol a threfnu digwyddiadau.

Helpais i drefnu a chefnogi digwyddiad Mabsant Casllwchwr - partneriaeth rhwng clwb gwerin, clwb cychod, Cyfeillion Parc Williams, Bad Achub Casllwchwr ac Eglwys San Mihangel.

Hefyd, parheais i gefnogi a chymryd rhan yn ein hymgyrch codi sbwriel leol a oedd yn cynnwys pobl ifanc leol.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Euthum i'r sesiynau hyfforddi canlynol:

08/07/2013 - Adolygiad Datblygiad Personol
Dyddiadau amrywiol – Academi Arweinyddiaeth

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

## Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Taliad cydnabyddiaeth ar gyfer 2013-2014 = £37,100 (cyflog uwch – Dirprwy Arweinydd)

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 04.07.14 |